Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Memorandwm Dealltwriaeth ar gyfer Arolygwyr Cofrestredig a gyflogir gan Ysgol, Consortiwm neu Awdurdod Lleol

## Gweithgareddau Blwyddyn Bontio 2020-2021

# Rheoli fersiwn

| Dogfen fersiwn | Awdur | Dyddiad cyhoeddi | Newidiadau a wnaed |
| --- | --- | --- | --- |
| 1.0 | Alison Palmer | Medi 2020 | - |

| **Cynnwys** | **Tudalen** |
|---|---|


| | |
|---|---|
| **Cyflwyniad** | **1** |
| Diben y memorandwm dealltwriaeth | 1 |
| **I bwy mae'r memorandwm dealltwriaeth yn berthnasol?** | **1** |
| **A Cyfrifoldebau'r cyflogwr (h.y. ysgol, consortiwm neu awdurdod lleol):** | **2** |
| Dewis a dyrannu gweithgareddau'r flwyddyn bontio | 2 |
| Hyfforddiant | 2 |
| Defnyddio | 3 |
| Gwerthuso | 3 |
| Iechyd a diogelwch | 3 |
| Indemniad | 3 |
| **B Cyfrifoldebau'r Arolygiaeth:** | **5** |
| Hyfforddiant | 5 |
| Defnyddio | 5 |
| Gwerthuso | 5 |
| Iechyd a diogelwch | 5 |
| Treuliau | 5 |
| Ariannu rhyddhau Arolygwyr Cofrestredig | 6 |
| Gwrthdaro buddiannau | 6 |
| **C Cyfrifoldebau arolygwyr cofrestredig a gyflogir gan ysgol, consortiwm neu awdurdod lleol:** | **7** |
| Hyfforddiant | 7 |
| Defnyddio | 7 |
| Gwerthuso | 7 |
| Iechyd a diogelwch | 8 |
| Rôl arolygwyr cofrestredig yn ystod y flwyddyn bontio | 8 |
| Defnyddio technoleg gwybodaeth | 8 |
| Diogelu | 9 |
| Côd Ymddygiad | 9 |
| Gwrthdaro buddiannau | 9 |
| **Atodiad A**: Protocol ac arweiniad ar gyfer Arolygwyr Cofrestredig | **10** |
| **Atodiad B**: Iechyd a diogelwch y tîm sy'n ymgymryd ag ymweliadau ymgysylltu | **12** |

## Cyflwyniad

### Diben y memorandwm dealltwriaeth

1 Mae’r ddogfen hon yn amlinellu rolau, cyfrifoldebau a disgwyliadau’r tri pharti yn gysylltiedig â chyfranogiad Arolygwyr Cofrestredig (ACof) yng ngweithgareddau blwyddyn bontio Estyn.

Mae’n rhaid i ACof hysbysu’r Arolygiaeth am unrhyw newid i gyfeiriad neu newid perthnasol arall, fel newid enw neu gyflogwr, trwy system ar-lein Estyn ar gyfer proffiliau arolygwyr. Os bydd yr ACof yn newid cyflogaeth, rhaid iddo ddiweddaru ei broffil Arolygydd gan roi ei sefydliad newydd, a hefyd diweddaru ei hepgoriadau. Rhaid i’r ACof lenwi Ffurflen Cymeradwyaeth Cyflogwr newydd hefyd a’i hanfon yn ôl i Estyn. Bydd yr Arolygiaeth yn defnyddio’r wybodaeth dim ond at ddiben defnyddio ACof a rhannu gwybodaeth â nhw ynghylch datblygiadau yn yr Arolygiaeth a chyfleoedd ar gyfer datblygu a hyfforddi. Bydd AEM yn gallu gweld cyfeiriadau e-bost, enwau, cyfeiriadau ac arbenigeddau ar gyfer pob ACof ar eu Proffil Arolygydd personol at ddibenion eu hymglymiad â gweithgareddau’r flwyddyn bontio yn unig.

2 Mae’r partïon yn cydnabod dyletswydd yr Arolygiaeth i gydymffurfio â Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (y Ddeddf) ac mae’n deall y gallai fod angen i’r Arolygiaeth ddatgelu gwybodaeth benodol i drydydd partïon. Bydd y cyflogwr ac ACof yn cynorthwyo’r Arolygiaeth i gydymffurfio â’r Ddeddf yn unol â chais rhesymol gan yr Arolygiaeth.

3 Mae’r partïon yn cydnabod y bydd ACof ar bob adeg yn parhau i fod yn gyflogai’r cyflogwr/ysgol, consortiwm neu awdurdod lleol ac na chaiff ei ystyried yn un o gyflogeion neu weithwyr yr Arolygiaeth. Ni fydd ACof yn cyflwyno’i hun fel petai’n gyflogai neu weithiwr yr Arolygiaeth nac yn asiant nac yn llefarydd ar ei rhan.

## I bwy y mae’r Memorandwm Dealltwriaeth hwn yn berthnasol?

### Partïon

4 Mae’r memorandwm dealltwriaeth hwn yn berthnasol i’r cytundeb rhwng yr Arolygiaeth, y cyflogwr/yr ysgol, y consortiwm neu’r awdurdod lleol a’r ACof.

5 Yn y telerau ac amodau hyn, ystyr ‘ACof’ yw’r unigolyn sydd wedi’i enwi ar ffurflen datganiad o ddiddordeb y flwyddyn bontio ac ystyr ‘cyflogwr’/‘ysgol’ yw’r sefydliad (consortiwm, awdurdod lleol) neu’r ysgol sy’n cymeradwyo rhyddhau’r cyfryw unigolyn i gymryd rhan yng ngweithgareddau blwyddyn bontio Estyn.

6 Daw’r Memorandwm Dealltwriaeth i rym ar ddyddiad y llythyr yn cadarnhau bod yr unigolyn wedi’i ddewis i gymryd rhan yn rhaglen gweithgareddau blwyddyn bontio Estyn a bydd yn parhau tan ddiwedd y flwyddyn bontio (Gorffennaf 2021) oni bai bod un o’r partïon yn ei ganslo neu os bydd yr ACof yn newid cyflogwr. Os bydd ACof yn newid

cyflogwr, bydd angen iddynt lunio cytundeb newydd gyda'r Arolygiaeth a'r cyflogwr newydd.

7 Os bydd ACof yn cael ei benodi'n Aelod Senedd Cymru neu'n Aelod Seneddol, ni fydd yr ACof yn gymwys mwyach i gael ei ddefnyddio mewn arolygiad.

8 Gall unrhyw un o'r partïon derfynu'r cytundeb hwn ar unwaith (heb fod yn atebol am dalu unrhyw iawndal i'r partïon eraill) os oes digwyddiad coronafeirws yn digwydd sy'n golygu nad oes angen i'r Arolygydd Cofrestredig, neu os nad yw'r Arolygydd Cofrestredig yn gallu, cwblhau unrhyw ran neu'r cyfan o raglen weithgarwch y flwyddyn bontio. Gallai digwyddiad coronafeirws gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i:

a. Absenoldeb yr Arolygydd Cofrestredig neu nid yw'r Arolygydd Cofrestredig ar gael;

b. Unrhyw salwch gan yr Arolygydd Cofrestredig neu unrhyw gyflogeion allweddol y cyflogwr neu'r Arolygiaeth, eu gosod dan gwarantin, gwarchod eu hunain neu hunanynysu;

c. Unrhyw fesurau argymelledig neu orfodol a gyflwynir gan Lywodraeth y DU neu Llywodraeth Cymru y bwriedir iddynt atal neu oedi lledaenu coronafeirws.

9 Yn ychwanegol at yr hawliau terfynu a amlinellir yn 8 uchod, gall unrhyw un o'r partïon derfynu'r cytundeb hwn drwy hysbysiad ysgrifenedig i'r ddau barti arall o leiaf 30 diwrnod cyn dyddiad gweithredu'r terfyniad.

## A Cyfrifoldebau'r cyflogwr

**Mae'r cyflogwr yn cytuno i'r canlynol:**

**Dewis a dyrannu gweithgareddau'r flwyddyn bontio**

10 **Trwy gytuno bod yr aelod staff yn cael cymryd rhan yn rhaglen gweithgareddau blwyddyn bontio Estyn, bydd y cyflogwr yn ymrwymo i ryddhau'r unigolyn ar gyfer hyfforddiant, paratoi a defnyddio, yn unol â'r hyn a fanylir yn y cytundeb hwn.**

11 Mae'n ofynnol bod pob ACof sy'n cymryd rhan yn rhaglen gweithgareddau'r flwyddyn bontio wedi cael y dystysgrif cliriad manwl briodol a diweddar (o fewn y tair blynedd diwethaf) gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, trwy eu cyflogwr. Os yw'r ACof yn aelod o'r gwasanaeth diweddaru, mae'n ofynnol iddo roi caniatâd ysgrifenedig i Estyn fynd at ei dystysgrif gan y GDG, ar-lein, bob tair blynedd. Mae'r arolygiaeth yn cadw'r hawl i wirio bod hyn ar waith ar unrhyw adeg. Bydd y cyflogwr a'r awdurdod cyhoeddi yn hysbysu'r Arolygiaeth os daw i wybod am unrhyw beth yn gysylltiedig â chofnod yr unigolyn a allai fwrw amheuaeth ar ei addasrwydd i gymryd rhan mewn arolygiadau. Dylai ACof gysylltu â'u cyflogwr os nad ydynt yn siŵr am ddyddiad neu addasrwydd eu cliriad blaenorol.

**Hyfforddiant**

12 Bydd y cyflogwr yn rhyddhau ACof i'w galluogi i gwblhau rhaglen gweithgareddau'r flwyddyn bontio, a fydd yn cynnwys:

a) diwrnod cadw mewn cysylltiad bob tymor yn ystod blwyddyn bontio 2020 – 2021
b) tua 5 niwrnod o weithgarwch ymgysylltu
c) hyfforddiant diweddaru yn nhymor yr haf 2021

13 Trwy gefnogi datganiad o ddiddordeb ei aelod staff mewn cymryd rhan yng ngweithgareddau'r flwyddyn bontio, mae'n rhaid i'r cyflogwr gytuno i ryddhau'r aelod staff ar gyfer hyfforddiant diweddaru blynyddol, gan ei fod yn orfodol ar gyfer cynnal cymhwysedd yr unigolyn i arolygu fel Arolygydd Cofrestredig gydag Estyn pan fydd arolygiadau'n ailddechrau yn dilyn y flwyddyn bontio.

**Defnyddio**

14 Bydd y cyflogwr yn cyflawni ei ymrwymiad i ryddhau staff yn unol â'r telerau yn y ddogfen hon. O dan amgylchiadau eithriadol yn unig, fel secondiad i'r awdurdod lleol/consortiwm rhanbarthol, y bydd yn gwrthod rhyddhau staff neu'n tynnu staff yn ôl o ddyletswyddau'r flwyddyn bontio ar fyr rybudd.

**Gwerthuso**

15 Ar ddiwedd pob gweithgarwch ymgysylltu, bydd yr AEM Cofnodol yn cwblhau gwerthusiad o berfformiad yr ACof.

16 Os na fydd ACof yn perfformio'n effeithiol yn ôl barn yr Arolygiaeth, ni chânt eu defnyddio mewn gweithgarwch ymgysylltu pellach.

**Iechyd a diogelwch**

17 Bydd y cyflogwr yn sicrhau bod ei ACof enwebedig o gymeriad da a'u bod wedi dangos eu gallu i weithio'n ddiogel. Mae'r ysgol, y consortiwm neu'r awdurdod lleol yn cadw ei ddyletswydd statudol fel cyflogwr i ofalu'n rhesymol am ddiogelwch ACof, hyd yn oed pan fydd yn ymweld ag ysgolion eraill ac yn cymryd rhan mewn rhaglenni hyfforddi Arolygwyr Cofrestredig.

**Indemniad**

18 Rhaid i'r cyflogwr indemnio'r Arolygiaeth, y Goron a/neu ei Gweinidogion, a'u cyflogeion, swyddogion, gweision ac asiantau (bob un ohonynt yn "Berson sydd wedi ei Indemnio"), a chynnal yr indemniad hwnnw, mewn perthynas â:

(a) phob atebolrwydd, colled a niwed (gan gynnwys, heb gyfyngiad, colled economaidd a cholled anuniongyrchol a chanlyniadol), costau a threuliau (gan gynnwys, heb gyfyngiad, treuliau cyfreithiol) y mae Person sydd wedi ei Indemnio yn mynd iddynt; a/neu

(b) pob hawliad, gweithred ac achos y mae trydydd parti yn eu dwyn yn erbyn Person sydd wedi ei Indemnio; a/neu

(c) (heblaw ac i'r graddau yr oedd unrhyw golled, niwed, anaf personol neu farwolaeth a ddioddefodd yr ACof wedi'i achosi gan esgeulustod y Person hwnnw sydd wedi ei Indemnio), pob hawliad, gweithred ac achos a ddygir yn erbyn Person sydd wedi ei Indemnio gan neu ar ran yr ACof; ym mhob achos yn deillio'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol o ganlyniad i neu mewn perthynas â chyfranogiad yr ACof yn rhaglen gweithgareddau'r flwyddyn bontio.

## B Cyfrifoldebau'r arolygiaeth

**Mae'r arolygiaeth yn cytuno i'r canlynol:**

**Hyfforddiant**

19 Bydd yr Arolygiaeth yn darparu rhaglen hyfforddiant ar gyfer ACof a dim ond yr ACof hynny sydd â thystysgrif ddilys y GDG fydd yn cael eu gwahodd i ddiwrnodau cadw mewn cysylltiad cychwynnol ac i hyfforddiant diweddaru dilynol.

**Defnyddio mewn gweithgareddau ymgysylltu yn ystod blwyddyn bontio Estyn**

20 Mae'r Arolygiaeth yn rhagweld defnyddio ACof am uchafswm o 5 niwrnod o weithgarwch ymgysylltu yn ystod blwyddyn academaidd 2020-2021. Fodd bynnag, oherwydd yr amgylchiadau presennol o ganlyniad i bandemig Covid-19, ni all yr Arolygiaeth ragweld union lefel y defnydd a fydd yn ofynnol ar gyfer blwyddyn academaidd 2020/2021. O ganlyniad, nid oes sicrwydd y bydd yr ACof yn cael ei ddefnyddio am uchafswm nifer y diwrnodau a roddir uchod ac nid oes rhwymedigaeth o gwbl ar Estyn i ddefnyddio'r ACof am y diwrnodau hynny.

21 Bydd yr Arolygiaeth yn sicrhau bod y cydlynydd arolygu (CydAr) yn gyswllt cyfeirio cyffredinol cyn cynnal gweithgarwch ymgysylltu a bydd yr AEM Arweiniol yn fan cyswllt yn ystod ac yn syth wedi unrhyw weithgarwch.

**Gwerthuso**

22 Ar ddiwedd pob gweithgarwch, bydd yr AEM Arweiniol yn cwblhau gwerthusiad o berfformiad yr ACof. Bydd Estyn yn monitro ac yn gwerthuso ansawdd gwasanaethau'r ACof, a fydd yn cynnwys (ond ni fydd yn gyfyngedig i) ddilyn côd ymddygiad Estyn, gweithdrefnau cwyno Estyn ac adborth gan yr AEM Arweiniol ar ôl ymweliad neu ddigwyddiad ar y cyd.

23 Os na fydd ACof yn perfformio'n effeithiol yn ôl barn yr Arolygiaeth, ni chânt eu defnyddio mewn gweithgarwch ymgysylltu pellach yn ystod y flwyddyn bontio.

**Iechyd a Diogelwch**

24 Wrth gydymffurfio â deddfwriaeth ac arweiniad iechyd a diogelwch, mae'r Arolygiaeth yn disgwyl bod yr ysgol yr ymwelir â hi wedi cynnal asesiadau risg addas o ran iechyd a diogelwch neu'n gallu gwirio bod asesiadau risg iechyd a diogelwch wedi'u cynnal cyn yr ymweliad.

25 Caiff materion iechyd a diogelwch eu cynnwys yn y rhaglen hyfforddiant ar gyfer ACof.

**Treuliau**

26 Bydd yr Arolygiaeth yn ad-dalu treuliau teithio a chynhaliaeth rhesymol i ACof pan gânt eu defnyddio mewn ymweliadau ymgysylltu, gan ddefnyddio'r cyfraddau canlynol:

| | |
|---|---|
| **Milltiredd Car** | **45c y filltir** |
| **Cinio (uchafswm)** | **Hyd at £9** |
| **Pryd bwyd (aros dros nos os byddwch dros 40 milltir i ffwrdd o'ch cartref)** | **Hyd at £27** |

**D.S. lle defnyddir cludiant cyhoeddus neu telir ffioedd parcio, atodwch dderbynebau i'r ffurflen hawlio er mwyn cael ad-daliad.**

27 Bydd yr Arolygiaeth yn darparu llety i ACof pan fyddant yn byw dros 40 milltir i ffwrdd o leoliad y gweithgarwch ymgysylltu.

28 Bydd yr Arolygiaeth yn darparu llety pan fydd yr ACof yn byw dros 40 milltir i ffwrdd o leoliad y darparwr, os a phan fydd yn cynnal ymweliadau ymgysylltu. Ad-delir costau teithio i ACof ar gyfer diwrnodau cadw mewn cysylltiad.

29 Ni fydd yr Arolygiaeth yn ad-dalu costau teithio a chynhaliaeth i arolygwyr cofrestredig ar gyfer cyrsiau hyfforddiant diweddaru.

**Ariannu Rhyddhau Arolygwyr Cofrestredig**

30 Bydd yr Arolygiaeth yn cyfrannu £300 y dydd ar gyfer rhyddhau ACof o'i gyflogwr ar gyfer pob gweithgarwch ymgysylltu a wneir. Nid yw'r Arolygiaeth yn talu cost cyflenwi ar gyfer mynychu cyrsiau hyfforddi Estyn.

**Gwrthdaro buddiannau**

31 Ni fydd yr Arolygiaeth yn defnyddio ACof mewn gweithgareddau ymgysylltu ag ysgolion pan fydd buddiannau'n gwrthdaro. Bydd gwrthdaro yn cynnwys unrhyw gysylltiadau, perthynas neu wybodaeth flaenorol neu bresennol ynghylch ysgolion eraill ac unrhyw ddyletswyddau a gyflawnwyd fel dilyswyr allanol. Dylai ACof gyfeirio at y Polisi Gwrthdaro Buddiannau ar wefan Estyn a diweddaru eu proffil arolygydd gan roi manylion am wrthdaro gwirioneddol neu ganfyddedig. .

## C Cyfrifoldebau Arolygwyr Cofrestredig a gyflogir gan ysgol, consortiwm neu awdurdod lleol

**Mae arolygwyr cofrestredig yn cytuno i'r canlynol:**

**Hyfforddiant**

32 Mae ACof yn cytuno i fynychu'r rhaglen hyfforddi, y mae'r Arolygiaeth yn rhagweld y bydd yn cynnwys:

- **Tri diwrnod cadw mewn cysylltiad**

  Un diwrnod cadw mewn cysylltiad fesul tymor yn ystod blwyddyn academaidd 2020-2021.

- **Hyfforddiant diweddaru**

  I'w gynnal yn ystod tymor yr haf 2021.

33 Bydd yr Arolygiaeth yn darparu llety ac yn ad-dalu ACof am deithio i ddiwrnodau cadw mewn cysylltiad (os na chânt eu cynnal o bell). Ni fydd yr Arolygiaeth yn talu am ryddhau ACof i fod yn bresennol mewn cyrsiau hyfforddiant.

34 Rhagwelir y bydd cyrsiau hyfforddiant diweddaru blynyddol o ddiwrnod o leiaf yn cael eu cynnal ar gyfer pob ACof. Mae presenoldeb mewn hyfforddiant diweddaru blynyddol yn orfodol ar gyfer y rôl.

**Defnyddio**

35 Bydd ACof yn cadarnhau eu bod wedi cael gwiriad clirio manwl gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG) a byddant yn rhoi gwybod i'r Arolygiaeth am unrhyw ffactorau perthnasol yn gysylltiedig â'u GDG fel amod o gael eu defnyddio. Bydd y gwiriad wedi'i wneud o fewn y 3 blynedd diwethaf, gyda gwiriad yn ôl y categori Gweithlu Plant.

36 Cyn y gweithgarwch ymgysylltu, bydd angen i ACof ymgyfarwyddo â'r wybodaeth sylfaenol am drefn y gweithgaredd. Bydd angen i ACof archwilio dogfennau allweddol, gwybodaeth am yr ysgol a thrywyddau ymholi sy'n cael eu nodi gan yr Arolygydd Cofnodol.

37 Bydd y wybodaeth hon ar gael yn Ystafell Arolygu Rithwir (YAR) yr ysgol. Yn ogystal, bydd yr AEM Cofnodol yn darparu'r wybodaeth hon ar ddechrau'r arolygiad.

**Gwerthuso**

38 Ar ddiwedd pob gweithgaredd, bydd yr AEM Cofnodol yn cwblhau gwerthusiad cyffredinol o berfformiad yr ACof. Bydd manylion pellach am y system werthuso yn cael eu darparu yn y digwyddiad cadw mewn cysylltiad cychwynnol.

39 Os na fydd ACof yn perfformio'n effeithiol yn ôl barn yr Arolygiaeth, ni chânt eu defnyddio yng ngweithgareddau pellach y flwyddyn bontio.

**Iechyd a diogelwch**

40 Bydd ACof yn dilyn yr arweiniad iechyd a diogelwch a ddarparwyd gan yr AEM Cofnodol fel rhan o friff y gweithgaredd. Bydd ACof yn cymryd gofal rhesymol o'u hiechyd a'u diogelwch eu hunain ac eraill y mae eu gweithredoedd neu eu hanwaith yn effeithio arnynt yn ystod yr arolygiad. Mae manylion pellach wedi'u cynnwys yn **Atodiad B**.

41 Bydd ACof yn cymryd cyfrifoldeb am eu diogelwch eu hunain, yn sensitif i ddiogelwch pobl eraill ac yn cydweithredu'n llawn â'r gweithdrefnau iechyd a diogelwch sydd ar waith. Mae manylion pellach wedi'u cynnwys yn **Atodiad A**.

**Rôl Arolygwyr Cofrestredig**

42 Bydd ACof yn gweithio ochr yn ochr â'r Arolygydd Cofnodol AEM sy'n cynnal y gweithgaredd penodol, ac o dan ei arweiniad.

43 Caiff dyletswyddau ACof eu rhestru yn **Atodiad A** y Protocol a'r Arweiniad ar gyfer ACof.

44 Bydd yr AEM Cofnodol yn neilltuo tasgau penodol i ACof ar ddechrau'r gweithgaredd.

**Gofynion meddalwedd yr YAR**

45 Bydd yn ofynnol i ACof ddod â gliniadur at eu defnydd eu hunain yn ystod y gweithgaredd ac arno:

- Microsoft Word 2010 (neu ddiweddarach)
- cysylltiad â'r rhyngrwyd (rhaid bod eich gliniadur wedi'i alluogi ar gyfer WiFi neu raid i chi drefnu'ch dull eich hun o gysylltu â'r rhyngrwyd)
- system weithredu Windows (XP neu uwch)
- porwr rhyngrwyd (Edge, Internet Explorer 10 neu 11 neu fersiwn ddiweddaraf Chrome/Firefox/Safari)

**Sylwch: i ddefnyddio system dempledi'r Ffurflen Ymgysylltu ar yr YAR yn llwyddiannus, bydd arnoch angen fersiwn lawn o MS Word 2010 (neu fersiwn ddiweddarach)**

46 Mae system yr YAR yn adnodd seiliedig ar Microsoft, felly mae perygl na ellir defnyddio cyfrifiaduron Apple Mac yn llwyddiannus pan fyddant yn defnyddio 'PC emulation'. Ni ellir defnyddio llechi (gan gynnwys iPads) ar hyn o bryd.

47 Bydd ACof yn darparu copi electronig o'r Ffurflen Ymgysylltu sy'n cynnwys eu canfyddiadau a'r dystiolaeth ategol. Rhaid darparu'r Ffurflen Ymgysylltu wedi'i llenwi

gan ddefnyddio Microsoft Word 2010 (neu fersiwn ddiweddarach) a defnyddio'r templed a ddarperir yn yr Ystafell Arolygu Rithwir ar ddechrau'r gweithgaredd. Mae'r holl wybodaeth a thystiolaeth yn parhau'n eiddo i'r Arolygiaeth.

48 Mae'n rhaid i ACof gadw at Bolisi Sicrwydd Gwybodaeth yr Arolygiaeth, sydd ar gael ar y wefan.

**Diogelu**

49 Bydd ACof yn ymgyfarwyddo â pholisi Diogelu'r Arolygiaeth, ac yn cadw ato, ar arolygiad – Polisi a Gweithdrefnau Estyn ar gyfer Diogelu

**Côd Ymddygiad**

50 Bydd ACof yn cadw at y 'Côd ymddygiad ar gyfer arolygwyr' yn y llawlyfr arweiniad perthnasol ar gyfer Arolygu Ysgolion. Bydd ACof yn cynnal cyfrinachedd llwyr ar bob adeg. Ni all gwybodaeth na dogfennau sy'n benodol i'r ysgol gael eu copïo na'u rhannu gydag unrhyw unigolyn sydd heb gysylltiad â'r arolygiad. Mae sail dystiolaeth yr arolygiad fel y'i disgrifir yn y dogfennau arweiniad yn eiddo i'r Arolygiaeth.

51 Yn ddarostyngedig i'r angen am gyfrinachedd, fel yr amlinellir yn **Atodiad B**, gall ACof rannu gyda'u cyflogwr wybodaeth a gafwyd yn ystod yr arolygiad am brosesau a gweithdrefnau'r Arolygiaeth. Fodd bynnag, os byddant yn dymuno rhannu dogfennau penodol neu enghreifftiau o arfer a welwyd yn ystod yr ymweliad, yna rhaid iddynt gael caniatâd yr ysgol dan sylw.

52 Caiff ACof eu hannog i ddefnyddio'r profiad a gafwyd trwy eu hyfforddiant a'u defnydd yn eu hysgol eu hunain (lle y bo'n berthnasol) i gynorthwyo â phroses wella'r ysgol a datblygu a gweithredu gweithdrefnau hunanwerthuso.

**Gwrthdaro Buddiannau**

53 Cyn mynychu cwrs hyfforddiant, bydd ACof yn datgan unrhyw fuddiannau personol neu broffesiynol posibl sy'n gwrthdaro yn gysylltiedig ag ysgolion eraill. Bydd y gwrthdaro hwn yn cynnwys unrhyw gysylltiadau, perthynas neu wybodaeth flaenorol neu bresennol am ysgolion eraill ac unrhyw ddyletswyddau y gwnaethant ymgymryd â nhw fel dilyswyr allanol. Yn sgil hynny, mae'n rhaid i ACof roi gwybod i'r Arolygiaeth am unrhyw newid i'w statws cyn gynted ag y bydd yn digwydd.

54 Ni fydd ACof yn cael ei ddefnyddio mewn ysgol y mae wedi'i eithrio rhagddi o fewn cyfnod tair blynedd. Fodd bynnag, gellid ymestyn y cyfnod hwn ddwy flynedd arall yn dibynnu ar yr amgylchiadau. Os oes gan ACof unrhyw amheuaeth neu os bydd yn nodi unrhyw amgyffrediad o wrthdaro buddiannau, rhaid iddynt roi gwybod i'r Arolygiaeth ar unwaith.

## Atodiad A: Protocol ac Arweiniad ar gyfer Arolygwyr Cofrestredig

### Egwyddorion Cyffredinol

### Cyfrifoldebau ACof

Bydd arolygwyr cofrestredig yn cefnogi AEM trwy:

- fod yn aelod o'r tîm mewn ymweliadau ymgysylltu ag ysgolion cynradd mawr
- bod yn aelod o'r tîm mewn ymweliadau arolygu dilynol ag ysgolion cynradd
- cyfrannu at ddigwyddiadau rhanddeiliaid, fel cynadleddau a gweithdai
- cyfrannu at ddatblygu deunyddiau hyfforddiant i arolygwyr
- cynorthwyo â chyflwyno digwyddiadau hyfforddiant trawsnewid gydag AEM ar gyfer y trefniadau arolygu newydd ym Medi 2021
- meddu ar wybodaeth ymarferol am y Cwricwlwm i Gymru
- gweithredu yn unol â'r cod ymddygiad ar gyfer arolygwyr
- bod yn gyfarwydd â'r protocol a'r arweiniad ar gyfer ymweliadau dilynol
- cwblhau'r holl ddogfennau ynghylch ymweliadau ymgysylltu ac ymweliadau dilynol
- parchu cyfrinachedd yr holl wybodaeth sy'n dod i law yn ystod yr ymweliad ymgysylltu neu'r ymweliad dilynol

### Cyfrifoldebau AEM Cofnodol

- sefydlu cysylltiad â'r arolygwyr cofrestredig
- amlinellu rôl benodol arolygwyr cofrestredig yn gysylltiedig â'r ymweliad ymgysylltu, yr ymweliad dilynol, cynhyrchu deunyddiau neu gyflwyno hyfforddiant yn ystod yr arolygiad
- gwirio bod mynediad at yr YAR a dogfennau perthnasol wedi cael ei drefnu
- briffio'r darparwr yr ymwelir ag ef am rôl arolygwyr cofrestredig
- cynllunio gwaith arolygwyr cofrestredig yn ystod yr ymweliad
- sicrhau ansawdd gwaith arolygwyr cofrestredig
- rhoi adborth ar berfformiad arolygwyr cofrestredig
- sicrhau bod arolygwyr cofrestredig yn gwybod am werthoedd craidd a pholisïau'r Arolygiaeth (er enghraifft mewn perthynas ag iechyd a diogelwch a bwlio) ac yn eu dilyn

### Gweithgareddau yn yr ymweliad ymgysylltu/y broses gweithgarwch dilynol

### Cyn yr ymweliad

| | |
|---|---|
| **Yr arolygydd cofrestredig** | ➢ ymgyfarwyddo ag arweiniad y sector<br>➢ ymgyfarwyddo â'r protocol a'r arweiniad hwn ar rôl yr ACof |

| | |
|---|---|
| | ➢ derbyn cyfarwyddiadau ar gyfer mynd i mewn i'r Ystafell Arolygu Rithwir (YAR) er mwyn gallu cael at yr holl ddogfennau angenrheidiol |
| **Yr AEM Cofnodol** | ➢ cael enw a gwybodaeth gefndir am yr ACof trwy'r YAR a'r system Proffiliau Arolygwyr a neilltuo rolau a chyfrifoldebau i'r ACof<br>➢ cadarnhau gyda'r ACof fod y gallu i fynd i mewn i'r YAR wedi'i drefnu cyn dechrau'r gweithgarwch ymgysylltu |

**Yn ystod yr ymweliad a chyn gadael yr ysgol**

| | |
|---|---|
| **Yr arolygydd cofrestredig** | ➢ yn unol â chyfarwyddyd yr AEM Cofnodol, ymgymryd â thasgau a neilltuwyd iddo cyn i'r ymweliad ddechrau<br>➢ gweithio trwy gydol yr ymweliad o dan gyfarwyddyd yr Arolygydd Cofnodol<br>➢ cymryd rhan mewn cyfarfodydd tîm<br>➢ ymgymryd â theithiau dysgu a gweithgareddau eraill<br>➢ gwrando ar ddysgwyr<br>➢ cwblhau pob dogfen, fel y bo'n briodol<br>➢ cyfrannu at goladu canfyddiadau, tystiolaeth ategol ac ysgrifennu adroddiad yr ymweliad ymgysylltu neu'r gweithgarwch dilynol<br>➢ dychwelyd holl ddogfennau'r ysgol |
| **Yr AEM Cofnodol** | ➢ monitro gwaith yr arolygydd cofrestredig a darparu cymorth, fel y bo'n briodol<br>➢ sicrhau bod yr arolygydd cofrestredig yn chwarae rhan lawn yn yr arolygiad |

**Ar ôl yr ymweliad**

| | |
|---|---|
| **Yr arolygydd cofrestredig** | ➢ adolygu'r ffurflen ymgysylltu neu'r ffurflen gweithgarwch dilynol drwy'r YAR |
| **Yr AEM Cofnodol** | ➢ rhoi adborth i'r arolygydd cofrestredig am ansawdd ei waith yn ystod yr ymweliad a llenwi'r ffurflen gwerthuso arolygydd (FfAA) yn yr YAR. |

## Atodiad B:  Iechyd a diogelwch y tîm

Mae gan bob ACof gyfrifoldeb i wneud yn siŵr bod eu harferion gweithio trwy gydol y gweithgaredd yn cyd-fynd â rheoliadau iechyd a diogelwch.

**Bydd yr Asesiad Risg a'r Arweiniad gofynnol ynghylch Covid-19 yn cael eu darparu i ACof cyn ymweliad.  Cyfrifoldeb yr ACof fydd darllen a chadarnhau eu bod yn deall y dogfennau cyn ymweliad.**

Bydd yr AEM yn gwneud yn siŵr bod y darparwr yn hysbysu'r tîm am y trefniadau ar gyfer rheoli iechyd a diogelwch yn gysylltiedig â'r ymweliad.  Bydd hyn yn cynnwys rhoi gwybod am yr holl weithdrefnau ymadael mewn argyfwng yn ogystal â'r rhagofalon i'w cymryd mewn ardaloedd ar safle'r darparwr lle y bydd lefel uchel bosibl o risg yn gysylltiedig ag iechyd a diogelwch.  Ni fydd unrhyw aelod o'r tîm yn cyflawni unrhyw weithgareddau cyn cael briff priodol ar iechyd a diogelwch.

**Yn ystod yr ymweliad**
Ar ddechrau'r arolygiad, bydd yr AEM yn atgoffa'r tîm am eu cyfrifoldebau o ran eu hiechyd a'u diogelwch eu hunain ac iechyd a diogelwch pobl eraill.  Dylent arfer y cyfrifoldeb hwn trwy:

- ystyried y cyngor ar iechyd a diogelwch a ddarperir yn ystod cyrsiau hyfforddiant, gan yr AEM ym mhob arolygiad a chan gynrychiolwyr y darparwr, gan ddefnyddio'u profiad eu hunain o arfer iechyd a diogelwch a'u harbenigedd yn eu maes gwaith eu hunain
- bod yn wyliadwrus wrth ymgymryd â'u gwaith a chymryd camau priodol i sicrhau eu diogelwch eu hunain
- sicrhau bod eu car wedi'i yswirio at ddefnydd busnes ac nad ydynt yn derbyn lifftiau gan aelodau o staff y sefydliad oni bai eu bod wedi cael sicrwydd bod yswiriant busnes a threfniadau eraill priodol ar waith
- rhoi digon o amser ar gyfer teithio rhwng safleoedd a gyrru yn unol â'r gyfraith
- sicrhau eu bod yn gyfarwydd â gweithdrefnau amddiffyn plant/amddiffyn oedolion agored i niwed yr Arolygiaeth a gweithredu ar y rhain, lle y bo'n briodol
- ystyried arfer dda wrth ymdrin â phobl a allai fod yn bryderus neu wedi cynhyrfu, ac wrth amddiffyn eu diogelwch a'u huniondeb personol nhw
- adnabod sefyllfaoedd peryglus a chamu i ffwrdd ohonynt, lle y bo'n briodol

Nid yw ACof yn gyfrifol am arolygu p'un a yw darparwyr yn cydymffurfio â rheoliadau iechyd a diogelwch; caiff hyn ei archwilio gan awdurdodau eraill.  Fodd bynnag, bydd yr AEM ac aelodau'r tîm yn hysbysu'r darparwr ar unwaith am unrhyw faterion sy'n effeithio'n ddifrifol ar iechyd, diogelwch a lles y dysgwyr.

Lle ceir problemau penodol, brys, bydd yr AEM yn paratoi nodyn i reolwr iechyd a diogelwch corff ariannu'r darparwr, gan anfon copïau ohono at uwch gydweithwyr yn yr Arolygiaeth.
Dylai pob ACof gofnodi cyswllt mewn argyfwng ar eu Proffil Arolygydd unigol, a fydd ar gael i'r AEM Cofnodol os bydd argyfwng.